**PWYLLGOR CYNLLUNIO**
**26 GORFFENNAF 2017**

Cofnodion o gyfarfod o Bwyllgor Cynllunio Cyngor Sir y Fflint a gynhaliwyd yn Neuadd y Sir, yr Wyddgrug ddydd Mercher, 26 Gorffennaf 2017

**YN BRESENNOL: Cynghorydd David Wisinger (Cadeirydd)**
Cynghorwyr: Marion Bateman, Sean Bibby, Chris Bithell, Derek Butler, Ian Dunbar, Carol Ellis, Veronica Gay, Patrick Heesom, Dave Hughes, Kevin Hughes, Christine Jones, Richard Lloyd, Billy Mullin, Mike Peers, Neville Phillips ac Owen Thomas

**YMDDIHEURIADAU:** Cynghorwyr: David Cox, Adele Davies-Cooke, David Evans a Richard Jones

**HEFYD YN BRESENNOL:**
Mynychodd y canlynol fel Aelodau lleol:
Cynghorwyr Cindy Hinds a David Williams ar gyfer eitem 6.4 (056694) ar yr agenda

**HEFYD YN BRESENNOL:**
Prif Swyddog (Cynllunio a'r Amgylchedd); Rheolwr Datblygu; Rheolwr Gwasanaethau – Strategaeth; Uwch Beiriannydd – Rheolaeth Datblygu Priffyrdd; Uwch Gynllunwyr; Uwch Dwrnai a Swyddogion Pwyllgor.

## 16. DATGAN CYSYLLTIAD

Dim.

## 17. SYLWADAU HWYR

Rhoddodd y Cadeirydd gyfle i'r Aelodau ddarllen y sylwadau hwyr a gylchredwyd yn y cyfarfod.

## 18. COFNODION

Cyflwynwyd cofnodion drafft y cyfarfod a gynhaliwyd ar 28 Mehefin 2017.

Cofnod Rhif 11 – Tynnodd y Cynghorydd Mike Peers sylw at y ffaith nad oedd yr hysbysiad o weddarlledu ar flaen yr agenda yn adlewyrchu'r cyngor a roddwyd y byddai recordiadau'n cael eu cadw am gyfnod amhenodol ar y wefan. Dywedodd yr Uwch Dwrnai y byddai'r hysbysiad yn cael ei ddiwygio felly.

**PENDERFYNWYD:**

Cymeradwyo'r cofnodion fel cofnod gwir a chywir ac fe'u llofnodwyd gan y Cadeirydd.

**19. EITEMAU I'W GOHIRIO**

Adroddodd y Prif Swyddog (Cynllunio a'r Amgylchedd) na argymhellwyd i ddim un o'r eitemau gael eu gohirio, er hynny, fod eitem 6.1 (055775) ar yr agenda wedi cael ei thynnu'n ôl gan yr ymgeisydd ar ôl i'r agenda gael ei chyhoeddi.

**20. ADRODDIADAU'R PRIF SWYDDOG (CYNLLUNIO A'R AMGYLCHEDD)**

**PENDERFYNWYD:**

Cofnodi penderfyniadau fel y gwelir yn yr atodlen Ceisiadau Cynllunio sydd ynghlwm fel atodiad.

**21. PENDERFYNIADAU APELIADAU**

**APÊL GAN MR & MRS N. & N. MCCADDON YN ERBYN PENDERFYNIAD CYNGOR SIR Y FFLINT I WRTHOD CANIATÂD CYNLLUNIO I GODI 17 O ANHEDDAU A'R SEILWAITH CYSYLLTIEDIG A MYNEDIAD I NORTHOP BROOK, THE GREEN, NORTHOP/LLANEURGAIN - GWRTHODWYD (055555)**

Tynnodd y Cynghorydd Chris Bithell sylw at wall teipio ym mharagraff 5.01 o'r adroddiad a gofynnodd i enw'r Arolygydd gael ei gynnwys mewn adroddiadau ar benderfyniadau apeliadau i'r dyfodol, fel y gofynnwyd o'r blaen.

Diolchodd y Cynghorydd Marion Bateman i'r Swyddog Cynllunio (Emma Hancock) am ei gwaith ar y cais hwn a'r apêl.

**PENDERFYNWYD:**

Nodi penderfyniad yr Arolygydd i wrthod yr apêl hon.

**22. AELODAU'R CYHOEDD A'R WASG YN BRESENNOL**

Ar ddechrau'r cyfarfod, roedd 17 aelod o'r cyhoedd ac un aelod o'r wasg yn bresennol.

(Dechreuodd y cyfarfod am 1.00pm a daeth i ben am 2.30pm)

…………………………

**Cadeirydd**

# PWYLLGOR CYNLLUNIO AR 26 GORFFENNAF 2017

| RHIF YR EITEM | CYNGOR TREF/ CYMUNED | SAFLE/CYNNIG | GWEITHREDU | PENDERFYNIAD |
|---|---|---|---|---|
| 055775 | Cyngor Cymuned Llaneurgain | Cais Llawn – Adeiladu Amlosgfa gyda Maes Parcio cysylltiedig, Mynedfa Newydd, Tirlunio a Gardd Orffwys yn Starkey Lane, Llaneurgain | - | Yr ymgeisydd wedi tynnu'r cais yn ôl. |
| 055430 | Cyngor Cymuned Llanfynydd | Cais Amlinell – Codi 14 Annedd yn hen Ganolfan Arddio a Chartref Spectrum, Ffordd Wrecsam, Cefn-y-Bedd | Tynnodd y Swyddog Cynllunio sylw at y diwygiad i Amod 18 a'r Amod 19 ychwanegol a nodwyd yn y sylwadau hwyr, a gylchredwyd yn flaenorol.<br><br>Dywedwyd wrth yr Aelodau y dylai unrhyw ostyngiad arfaethedig yn y cyfyngiad cyflymder ar y brif ffordd gael ei drafod gyda'u cydweithwyr yn y Gwasanaethau Stryd. | Rhoi caniatâd amodol, yn unol ag argymhelliad y swyddog fel y'i diwygiwyd gan y sylwadau hwyr, a bod yr ymgeisydd yn ymrwymo i Ymgymeriad Unochrog/ Rhwymedigaeth Adran 106 fel y nodir yn yr adroddiad. |
| 056305 | Cyngor Tref Bwcle | Cais Llawn – Dymchwel yr Adeiladau Presennol a Chodi Byngalo Sengl Newydd yn Colros, 6 Ash View, Alltami | | Rhoi caniatâd cynllunio, yn unol ag argymhelliad y swyddog, yn amodol ar yr amodau a bod yr ymgeisydd yn ymrwymo i Rwymedigaeth Adran 106 fel y nodir yn yr adroddiad. |

| RHIF YR EITEM | CYNGOR TREF/ CYMUNED | SAFLE/CYNNIG | GWEITHREDU | PENDERFYNIAD |
|---|---|---|---|---|
| 056694 | Cyngor Cymuned Penyffordd | Cais Llawn – Adeiladu 32 o Anheddau gan gynnwys Mynedfa Newydd i Gerbydau, Gofod Agored Cyhoeddus, Maes Parcio a Thirlunio yn Ffordd Penarlâg, Penyffordd | Roedd sylwadau pellach a ddaeth i law ar ôl cyhoeddi'r adroddiad i'w gweld yn y sylwadau hwyr a gylchredwyd yn flaenorol.<br><br>Ar ran yr Aelodau Lleol, gofynnodd Patrick Heesom am ymweliad safle er mwyn delio â'r materion a oedd yn codi o'r cais. | Gohirio'r cais er mwyn cynnal ymweliad safle. |
| 056779 | Cyngor Tref Saltney | Cais Llawn – Bwriad i Ddymchwel Adeilad Presennol yr Hen Ffatri Wag a Chodi 74 o Anheddau Newydd, Mynedfa Newydd i'r Safle ac Ardal Gofod Agored Cyhoeddus yn Allied Bakeries Ltd., Ffordd Caer, Saltney | Tynnodd y Swyddog Cynllunio sylw at yr amod ychwanegol ynghyd â'r cynlluniau diwygiedig a'r argymhelliad a geid yn y sylwadau hwyr a gylchredwyd yn flaenorol.<br><br>Gan siarad fel aelod o'r cyhoedd, cododd y Cynghorydd A.B. Gregory, rai pryderon ynglŷn â'r cais.<br><br>Siaradodd Mr S. Jones, asiant yr ymgeisydd, i gefnogi'r cais. | Rhoi caniatâd cynllunio, yn unol ag argymhelliad y swyddog, fel y'i diwygiwyd gan y sylwadau hwyr, gan gynnwys:<br><br>• dim ystyriaethau pwysig newydd yn cael eu codi gan y Cyngor Cymuned a Thref erbyn 5pm dydd Gwener 28 Gorffennaf 2017; a<br>• bod yr ymgeisydd yn ymrwymo i Ymgymeriad Unochrog/ Rhwymedigaeth Adran 106 neu'n talu'n gynnar y cyfraniadau fel y nodir yn yr adroddiad ond fel y'i diwygiwyd, i ddarparu ar gyfer 9 cartref fforddiadwy canolraddol i'w gwerthu am bris is na phris y farchnad. |

| RHIF YR EITEM | CYNGOR TREF/ CYMUNED | SAFLE/CYNNIG | GWEITHREDU | PENDERFYNIAD |
|---|---|---|---|---|
| 056832 | Cyngor Cymuned Gwernymynydd | Cais Amlinell – Codi Annedd Sengl yn 'Bwthyn Gwyn', Swan Lane, Gwernymynydd | | Rhoi caniatâd cynllunio, yn unol ag argymhelliad y swyddog, yn amodol ar yr amodau a nodir yn yr adroddiad. |